**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL (MEMORANDWM RHIF 2)**

**Y Bil Data (Defnydd a Mynediad)**

1. Gosodir y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol (LCM) hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae RhS 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru[1] os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig.

2. Cyflwynwyd y Bil Data (Defnydd a Mynediad) ("y Bil") yn Nhŷ'r Arglwyddi Senedd y DU ar 23 Hydref 2024. Gosodais LCM ar 2 Ionawr 2025.

3. Ar 26 Chwefror cyflwynwyd nifer o welliannau'r llywodraeth ar gyfer cam Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin, a ddechreuodd ar 4 Mawrth. Mae pump o'r gwelliannau hyn yn gwneud darpariaeth sy'n ymwneud â materion datganoledig, fel y manylir ym mharagraffau 8 i 15 isod.

4. Gellir dod o hyd i'r Bil, fel y'i dygwyd o Dŷ'r Arglwyddi, yn: https://publications.parliament.uk/pa/bills/cbill/59-01/0179/240179.pdf

## Amcan(ion) y Polisi

5. Amcanion polisi datganedig Llywodraeth y DU yw harneisio pŵer data er lles twf yr economi, i gefnogi llywodraeth ddigidol fodern, a gwella bywydau pobl. Mae'n nodi bod y Bil wedi'i gynllunio i gyflawni'r tri amcan hyn gyda mesurau wedi'u cynnwys i ddechrau cyflawni ei hymrwymiad i wasanaethu'r cyhoedd ym Mhrydain yn well drwy wyddoniaeth a thechnoleg.

## Crynodeb o'r Bil

6. Darparwyd crynodeb o'r Bil yn yr LCM cyntaf a osodwyd ar 2 Ionawr, sy'n parhau'n gywir.

## Y diweddaraf am y sefyllfa ers cyhoeddi'r LCM cyntaf

7. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi parhau i fod mewn cysylltiad rheolaidd ar y Bil, gan gynnwys rhannau penodol yn ymwneud â Mynediad at Ddata am Gwsmeriaid a Data am Fusnesau, Gwasanaethau Gwirio Digidol a'r Gofrestr Asedau Tanddaearol Genedlaethol (NUAR).

[1] *Nodwch, yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru, y byddwn yn cyfeirio at y ddeddfwrfa yng Nghymru fel "Senedd Cymru" y tro cyntaf, ac wedyn "y Senedd", oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall.*

8. Aseswyd y gwelliannau canlynol, a gyflwynwyd ar 26 Chwefror, gan Lywodraeth Cymru fel rhai sy'n gofyn am gydsyniad deddfwriaethol y Senedd:
   - Gwelliannau 1, 2, 3 a 5, sy'n diwygio Rhan 1, cymal 8 – Gorfodi Rheoliadau
   - Gwelliant 6, sy'n diwygio Rhan 1, cymal 10 - Cosbau ariannol

9. Yn dilyn dadansoddiad cyfreithiol o oblygiadau'r gwelliannau newydd hyn, ystyriaf fod gofyn gosod yr LCM atodol hwn gerbron y Senedd am y rhesymau a nodir ym mharagraffau 11 i 15 isod.

10. Mae Rhan 1 o'r Bil – Mynediad at Ddata am Gwsmeriaid a Data am Fusnesau yn gwneud darpariaeth ynghylch rhannu gwybodaeth am gwsmeriaid a busnesau i wneud data yn fwy cludadwy ac yn sefydlu fframwaith rheoleiddio ar gyfer sefydlu cynlluniau Data Clyfar.

<u>Gwelliant 1, 2, 3 a 5 – Rhan 1, cymal 8 - Gorfodi Rheoliadau</u>

11. Mae cymal 8 yn cynnwys pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol neu'r Trysorlys wneud rheoliadau ynghylch mesurau gorfodi mewn perthynas â chynlluniau Data Clyfar. Mae gwelliant 1, 2, 3 a 5 yn diwygio cymal 8, fel a ganlyn:

    - Mae gwelliant 1 yn diwygio cyfeiriad at amodau awdurdodi neu gymeradwyo i dderbyn data cwsmeriaid neu ddata am fusnesau, gan ymestyn cwmpas pwy all osod amodau y tu hwnt i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau.

    - Mae gwelliannau 2, 3 a 5 yn darparu y caiff rheoliadau a wneir o dan Ran 1 ei gwneud yn ofynnol i orfodwyr gyhoeddi neu ddarparu dogfennau, yn ogystal â gwybodaeth, gan wneud y pwerau deddfu mewn perthynas â gorfodwyr yn gyson â'r pwerau mewn perthynas â'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau a chyrff rhyngwyneb. Mae'r gwelliannau hyn yn gwneud darpariaeth am y tro cyntaf mewn perthynas â chyhoeddi neu gynhyrchu dogfennau.

12. Nodwyd yr angen am gydsyniad deddfwriaethol ar gyfer Rhan 1 o'r Bil, gan gynnwys cymal 8, yn yr LCM a osodwyd ar y Bil ar 2 Ionawr. Wrth i welliannau 1, 2, 3 a 5 ddiwygio cymal 8 drwy ymestyn cwmpas rheoliadau gorfodi, mae angen LCM Atodol ar gyfer y gwelliannau hyn.

<u>Gwelliant 6 – Rhan 1, cymal 10 – Cosbau ariannol</u>

13. Mae cymal 10 yn gwneud darpariaeth ar gyfer cosbau ariannol mewn perthynas â chynlluniau Data Clyfar ac yn gosod mesurau diogelu ar eu defnydd.

14. Mae gwelliant 6 yn ychwanegu darpariaeth ychwanegol y mae'n rhaid i reoliadau o dan y cymal hwn ei chynnwys. Mae hyn yn rhoi pŵer datganedig i wneud darpariaeth ynghylch trin cosbau a delir i orfodwyr, er

mwyn bod yn gyson â phwerau tebyg yng nghymalau 11(1)(b) (ffioedd) a 12(1)(b) (ardollau).

15. Nodwyd yr angen am gydsyniad deddfwriaethol ar gyfer Rhan 1 o'r Bil, gan gynnwys cymal 8, yn yr LCM a osodwyd ar y Bil ar 2 Ionawr. Gan fod gwelliant 6 yn gwneud darpariaeth ynghylch yr hyn y mae'n rhaid ei wneud, neu y gellir ei wneud, gyda chosbau am y tro cyntaf, mae angen LCM Atodol ar gyfer y gwelliant hwn.

**Barn Llywodraeth y DU ar yr angen am gydsyniad**

16. Darparwyd crynodeb o farn Llywodraeth y DU ar yr angen am gydsyniad mewn perthynas â Rhan 1 o'r Bil yn yr LCM cyntaf a osodwyd ar 2 Ionawr. Mae Llywodraeth y DU wedi cadarnhau mai dyma ei safbwynt o hyd ac mae'n berthnasol i'r gwelliannau hyn.

**Safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Bil**

17. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn gefnogol i fwriad polisi Llywodraeth y DU y tu ôl i'r Bil, a gafodd ei grynhoi yn yr LCM cyntaf a osodwyd ar y Bil.

18. Mae’r mwyafrif llethol o ddarpariaethau'r Bil yn ymwneud â'r materion a gadwyd yn ôl o dan y cymalau ar ddiogelu data, y cymalau ar werthu a chyflenwi nwyddau a gwasanaethau i ddefnyddwyr, y cymalau ar delegyfathrebu a'r cymalau ar gofrestru genedigaethau, marwolaethau ac addoldai, fel y'u nodwyd yn Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

19. Amlinellodd yr LCM blaenorol bryderon mewn perthynas â goblygiadau datganoledig y darpariaethau a ganlyn:

- Rhan 1, Mynediad at Ddata am Gwsmeriaid a Data am Fusnesau – cymalau 1-13 ac 18-26;
- Rhan 2, Gwasanaethau Gwirio Digidol, cymal 49; a
- Rhan 3 - Y Gofrestr Asedau Tanddaearol Genedlaethol, cymalau 56, 57, 60(1) ac Atodlen 1.

20. Mae pryderon yn parhau mewn perthynas â'r effaith y gallai'r Bil ei chael ar statws Digonolrwydd Data'r DU, fel y nodir yn yr LCM cyntaf a osodwyd ar y Bil.

21. Mae trafodaethau gyda Llywodraeth y DU ar y materion hyn, ar lefel Weinidogol a swyddogol, yn parhau.

**Goblygiadau ariannol**

22. Mae Rhan 1, Mynediad at Ddata am Gwsmeriaid a Data am Fusnesau - yn cynnwys pwerau i godi ffioedd ar ddeiliaid data ac eraill a chodi ardoll ar ddeiliaid data ac eraill. Mae Llywodraeth y DU yn nodi mai bwriad y rhain yw talu am y costau a ysgwyddir gan y rhai sy’n gwneud

penderfyniadau a gorfodwyr wrth arfer eu swyddogaethau. Mae'n datgan mai amcan y darpariaethau yw sicrhau bod cynlluniau'n hunangyllido ac nad ydynt yn ddibynnol ar arian cyhoeddus.

**Casgliad**

23. Yn fy marn i, mae’n briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn ar gyfer y DU, gan mai'r Bil yw'r ffordd fwyaf effeithiol o ddod â'r darpariaethau hyn i rym.

24. Er bod Llywodraeth Cymru yn gefnogol i'r bwriad polisi y tu ôl i'r Bil, mae pryderon o safbwynt cyfansoddiadol o hyd fel yr amlinellir ym mharagraffau 19-20.

25. Rydym yn parhau i ymgysylltu'n gadarnhaol â Llywodraeth y DU ar lefel Weinidogol a swyddogol ar rôl Gweinidogion Cymru a'r Senedd o fewn y Bil ar y materion hyn.

26. Byddaf yn darparu diweddariadau pellach i’r Senedd ynghylch safbwynt Llywodraeth Cymru mewn perthynas â’r Bil hwn ar ôl rhagor o drafod gyda Llywodraeth y DU.

**Rebecca Evans AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio**
**12 Mawrth 2025**